



Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor

18 Gorffennaf 2016

Cyngor Cymuned Llandwrog

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 18 Gorffennaf 2016 yn Neuadd Pentref Carmel

Yn bresennol- 7 aelod

Cyng. Alun Wyn Jones, Y Groeslon; Cyng Gwyn Owen Jones, Y Fron; Cyng David Marc Lewis, Y Fron; Cyng. Robert Isaac Jones, Llandwrog; Cyng. Helen Hughes, Carmel; Cyng. Hywel J Owen, Y Groeslon; Cyng. Robim Silyn Jones, Y Groeslon a'r Clerc
Hefyd yn bresennol-

Cyfieithydd
Huw Roberts

Yn cynrychioli Cymdeithas Porwyr Uwch Gwyrfa
John Griffith
Dafydd Wyn Jones
Emlyn Hughes

Ddim yn cymeryd rhan -
Trigolion y Fron- (oddeutu 10 ,#

16-07-01 1 Croeso'r Cadeirydd

Agorwyd y cyfarfod gan y Clerc gan fod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi ymddiheuro.

Penderfynwyd ethol Cyng. Alun Wyn Jones i'r gadair am y noson.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd gan gynnwys tri aelod o Gymdeithas Porwyr Uwch Gwyrfa, trigolion o'r Fron, Huw Roberts y cyfieithydd a'r aelodau.

Eglurodd y Cadeirydd fod croeso i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd misol o'r Cyngor ond ni ellir cymryd rhan. Nid oedd y Cadeirydd am dderbyn unrhyw sylwadau gan y cyhoedd. 'Roedd cyfle digonol wedi ei roi i'r trigolion fynegi eu pryderon trwy law eu cynrychiolwyr ar y Cyngor.

Eglurodd fod offer cyfieithu ar gael i'r sawl oedd ei angen#

16-07-02 2 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr aelodau canlynol -

Cynghorwyr Gerwyn Owen, Y Groeslon; Emyr Peris Hughes, Y Groeslon; Gethin Thomas, Llandwrog; Robert Isaac Jones, Llandwrog; Bryn Williams, Carmel; Robert Jones, Y Groeslon

16-07-03 3 Datgan Buddiant neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu

Ni dderbyniwyd unrhtw ddatganiad am fuddiant neu buddiant sydd yn rhagfarnu gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

16-07-04 4 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol fel Rhai Cywir (13 Mehefin 2016)

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

5 Cymdeithas y Porwyr

Croesawyd tri aelod y Gymdeithas Porwyr Uwch Gwyrfai , sef John Griffiths, Dafydd Wyn Jones a Robin Hughes.

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i nodi fod yna dri mater oedd angen ei drafod gyda'r Gymdeithas yn unol â'r rhaglen sef-

- 1) Pleidlais y gridiau
- 2) Giât i'r mynydd ger Siop Doris
- 3) Cyd-weithio – Cais grant gan y Gymdeithas

Eglurodd JG fod Cadeirydd y Gymdeithas yn ymddiheuro nad oedd yn bresennol gan fod ganddo ymrwymiadau gwaith.

Darllenwyd datganiad gan y Porwyr yn cynnig y ffordd ymlaen. Nodwyd yn y datganiad -

- £500 wedi ei wario ar y trefniadau
- Trefniadau ar y cyd rhwng Cyngor Cymuned Llandwrog a Grŵp y Fron

Cynnig y gymdeithas-

- Derbyn amlenni swyddogol
- Un bleidlais o bob amlen yn unig
- Un aelod o'r Gymdeithas ac un o Grŵp y Fron i fod yn bresennol l wrth gyfrif y pleidleisiau

Diolchodd y Cadeirydd am y datganiad. Aeth yn ei flaen i ddweud fod y mater hwn wedi ei drafod sawl tro. Gofynnwyd i'r Gymdeithas gywiro'r datganiad i nodi mai cymorth YN UNIG sydd wedi ei gynnig gan y cyngor hwn, yn hollol ddiuedd.

Gofynnwyd am sylwadau gan yr Aelodau-

Cyng. David Lewis-

Trigolion y Fron wedi mynegi pryderon iddo. Pob tŷ heb gael pleidlais. Pryderon nad yw'r cyfrif wedi ei wneud ar y diwrnod. Y consensws yw ail-gychwyn y broses. Teimlad nad yw yn broses annibynnol.

Cyng. Gwyn Owen Jones –

Cytuno gyda sylwadau DML. Hyn oll wedi ei ddweud yn y cyfarfod cyhoeddus. Rhifo'r amlenni hefyd wedi creu drwg deimlad. Cadarnhau mai rôl cefnogi sydd gan Gyngor Cymuned Llandwrog yn hollol ddiuedd. Awgrymodd mai aros gyda'r penderfyniad gwreiddiol fydd rhaid i'r Cyngor i'w wneud sef i gyfrif pob ffurflen ymhob amlen i bedwar bwndel sef o blaid un grid/ o blaid dau grid/ yn erbyn/ difetha. Nid oedd yn fodlon i Aelodau o'r Gymdeithas fod yn bresennol yn y cyfrif. Ychwanegodd nad oedd Grŵp Datblygu'r Fron yn barod i fod yn rhan o'r cyfrif.

Cyng. Robin Silyn Jones-

Angen cydnabod fod y Porwyr wedi gweithio'n galed di ddod r mater i'r maen. Mater lleol syml wedi mynd yn destun ffræ? Yn gofyn y cwestiwn pam? Pobol ddim yn dymuno setlo yn amlwg. Nodwyd fod pob papur etholiad wedi ei rifo!

Sylwadau'r Gymdeithas-

John Griffiths-

Wedi trio cymodi. Beth os oes ugain papur pleidlais mewn un amlen?

Cynigwyd y canlynol gan Cyng. Gwyn Owen Jones ac eiliwyd gan Cyng. Robin Silyn Jones.

O blaid 2, yn erbyn 1, wedi atal 3

Penderfyniad y Cyngor oedd fel a ganlyn-

i) *Fod y Cyngor yn cyfrif y pleidleisiau ddaeth i law i qvd, fel a ganlyn, ag heb amod -*

bydd y papurau yn cael eu didoli i un o bedwar bwndel :

1. ***Un grid: Croes ar “Un grid” yn unig***
2. ***Dau grid: Croes ar “Dau grid” yn unig a Croes ar Dau grid a chroes ar Un grid.***
3. ***Dim grid: Croes ar “Dim grid”***
4. ***Wedi ei ddifetha - dim croes neu groes ar `Dim grid` ac un o'r dewisiadau eraill....***

ii) *Fod aelodau o'r cyhoedd yn bresennol ac eithrio aelodau Gymdeithas Porwyr Uwch Gwyrfai*

iii) *Fod y Cyngor yn oedi gyda'r cyfrif hyd nes y bydd y Gymdeithas yn cyfarfod i drafod penderfyniad y Cyngor*

Giât i'r Mynydd ger Siop Doris

Adroddwyd gan John Griffith fod Adran Llwybrau Tramwy Cyngor Gwynedd wedi cynnig giât newydd yn amodol ar dderbyn cadarnhad pwy sydd berchen y giât bresennol.

Awgrymodd Cyng. Alan Patterson efallai mai Pwyllgor Pentref Carmel sydd ei berchen. Addawodd AP i edrych i mewn i'r mater.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a cheisio adnabod pwy sydd berchen y giât.

Cais am Grant – Cyd-weithio

Adroddwyd gan John Griffith fod y cais wedi ei anfon i Lywodraeth. Ni does dim pellach i adrodd arno hyd nes y ceir ymateb

Penderfynwyd derbyn yr ymateb

Gadawodd aelod y Gymdeithas yn syth ar ol yr item.

6 Materion yn Codi o'r Cofnodion

16-07-06 **Clwt Foty**

Adroddwyd gan y Clerc fod Stad y Goron wedi cysylltu yn gofyn pwy oedd yn gyfrifol am y llanast. Cerbydau a darnau cerbydau yn parhau i fod ar y tir. Disgwyl i Cyngor Gwynedd ymateb.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a monitro'r sefyllfa

16-07-07 **7 Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo a gynhaliwyd 23 Mehefin 2016 a 12 Gorffennaf 2016**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

Eglurodd y Cadeirydd fod argymhellion cyfarfod 23 Mehefin wedi eu cynnwys ar cofnodion cyfarfod 12 Gorffennaf. Rhoddwyd eglurhad mai cyfarfod ar safle a gynhaliwyd ar 23 Mehefin ac fod yr argymhellion ar y noson wedi eu cynnwys ar cofnodiobn 12 Gorffennaf ynghyd ac argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar yr eitem Blaenoriaeth Gwariant 2016/17

Materion yn Codi

16-07-08 **Blaenoriaeth Gwariant 2016/17**

Penderfynwyd ar y canlynol-

i) Fod y Cyngor yn blaenoriaethu'r gwaith canlynol yn ystod 2016-17

- ***Lloches Cae'r Moel (£1,500 yn y gyllideb)***
- ***Giât Fynwent Carmel (arian yn y gyllideb) ac yn derbyn pris o £450 i gyflawni'r gwaith***
- ***Peintio ffens fynwent Carmel (arian yn y gyllideb)***
- ***Goliau caeau pêl droed (arian yn y gyllideb)***
- ***Arwyddion - caeau pêl-droed Carmel a Fron (arian yn y gyllideb)***
- ***Ffens Wal Bryn'rodyn – yn amodol ar dderbyn dau bris (setliad NFU yn ariannu)***
- ***Gwaith Cerrig Beddi ar ôl y ddamwain (setliad NFU yn ei ariannu)***

ii) Fod y Cyngor yn dirprwyo penderfyniad derbyn prisiau'r isod i Gadeirydd y Cyngor a Chadeiryddion y Pwyllgorau -

- ***ffens fynwent Bryn'rodyn gyda trothwy o £3,800***
- ***arwyddion i'r caeau chwarae***

- *Iloches Cae'r Moel gyda trothwy o £1,500*

- iii) *Fod y Cyngor yn derbyn pris o £470 ar gyfer giat fynwent Carmel gan Cwmni Brynafon, Llanrug*
- iv) *Fod y Cyngor yn oedi i brynu goliau hyd nes y bydd cae pel-droed Carmel yn addas i chwarae pel-droed arno.*
- iv) *Fod y Cyngor yn oedi i archebu y gwaith ar y cerrig beddi hyd nes y bydd prisiau wedi dod i law ac i'r Cyngor benderfynu derbyn y prisiau yn Medi.*
- v) *Fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd gynnal cyfarfod ar safle, gyda contractwr, i ymweld a'r gwaith sydd ei angen ar llwybr Cae Iago ac fod y Cyngor yn ystyried y sefyllfa wedi derbyn pris am y gwaith. Yn y cyfamser fod y Clerc yn cysylltu gyda Adran Llwybrau Cyngor Gwynedd gan mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir ydi cyflawni'r gwaith Cyngor yn cefnogi gwaith ar llwybr Cae Iago ond yn disgwyl prisiau cyn penderfynu cyflawni unrhyw waith ond yn gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd gyfarfod ar y safle*

16-07-09 **Tir Comin , Brynrhos, Groeslon**

Sylwadau Aelodau -

Cyng. Hywel J Owen -

Yn awgrymu fod y tir wedi ei gofrestru gan cyn perchnogion 2 Tabybryn trwy Deddf Assertive Order"

Cyng. Alan Patterson

O brofiad o'r farn nad oedd yn bosib 'hawlio' tir bellach.

Cyng. Robin Silyn Jones

Yn cwestiynu fod y Cyngor yn codi'r maater? Byddai meddiannu'r tir yn faich ar y Cyngor. Costau cyfreithiol aruthruol petai'r Cyngor yn mynd ar mater yn ei flaen yn sgil y ffaith fod y tir wedi ei gofrestru fel rhan o eiddo 2 Tanybryn gan y Land registry. Yn cynnig gollwng y mater am y rhesymau uchod.

Penderfynwyd i'r Cyngor yn gollwng y mater

16-07-10 **Llwybrau Cyhoeddus - Trefniadau Cynnal Llwybrau a Torri Gwair 2017**

Penderfynwyd gofyn i'r Pwyllgor Mynwentydd i adolygu trefniadau cynnal llwybrau a thorri gwair y mynwentydd a chaeau pêl droed ar gyfer 2017.

16-07-11 **8 Derbyn Cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 13 Gorffennaf 2016**

Derbyniwyd y cofnodion uchod fel rhai cywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

Materion yn Codi

16-07-12 **Cyllideb 2016-17 – Adolygiad Monitro Chwarter 1af**

Penderfynwyd ar y canlynol.

- i) ***Fod y Cyngor yn derbyn y balansau at 30 Mehefin 2016 fel y nodwyd.***

- ii) *Fod y Cyngor yn derbyn yr hynny a nodir uchod am yr ymrwymadau wrth sylweddoli mai dim ond tri mis o'r flwyddyn ariannol sydd wedi mynd heibio a bydd y darlun llawer fwy eglur yn yr adolygiadau nesaf.*

16-07-13 **Blaenoriaeth Gwariant 2016/17**

Gweler penderfyniad eitem 16-07-18 uchod.

16-06-14 **Rheolau Ariannol – Model Cenedlaethol Mehefin 2016**

Penderfynwyd fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor Cyllid addasu Rheolau Ariannol y Cyngor fel sy'n briodol a chyflwyno rheolau newydd law yn law gyda Rheolau Sefydlog y Cyngor.

Mater a Godwyd gan Aelod

16-06-15 **9 Gardd y Coleg, Carmel - Mater a godwyd gan Cyng. Helen Hughes**

Penderfyniad y Cyngor –

Derbyn yr ohebiaeth gan ofyn i Bwyllgor Pentref Carmel am ddiweddariad unwaith y bydd y Pwyllgor wedi cyfarfod.

16-06-16 **10 Cyd-weithio Rhwng Cyngorau Lleol**

Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan Cyng. Gwyn Owen Jones yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd Nos Iau, 14 Gorffennaf.

Tri aelod o'r Cyngor wedi mynychu

Sawl enghraifft o gyd-weithio i arbed arian trwy gyfuno gwasanaethau yn benodol -

- biniau halen
- torri gwair
- cynnal llwybrau cyhoeddus
- toiledau cyhoeddus

Y grŵp yn edrych ar sawl agwedd

Sylwadau Aelodau-

Cyng. Hywel J Owen

O P Huws gyda sawl syniad i gwtogi gwariant a chynyddu incwm er enghraifft prynu trydan i'r gymuned Ychwanegodd fod hawl i bob aelod o'r Cyngor ymuno a'r trafodaethau gan nad oes cyfansoddiad i'r Grŵp. Gofyn i'r Clerc anfon y cofnodion i bob aelod. Cyfarfod nesaf 22 Medi 2016.

Cyng. Alun Wyn Jones

Awgrym gan y Grŵp i sefydlu endid newydd gyda chyfansoddiad, o bosib yn gwasanaethu ar ran y Cyngorau.

Cyng. Alan Patterson

Yn awgrymu y dylid gwarchod y gwasanaethau sydd yn bodoli i sicrhau nad yw contractwyr lleol ddim yn colli gwaith.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth gan ofyn i'r aelodau sydd yn mynychu'r cyfarfodydd am adroddiad o'r trafodaethau.

Gohebiaeth

16-07-17 **11 Ombwdsman Cymru - Adroddiad Blynyddol 2015-16**

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth heb sylwadau.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau.

16-07-18 **12 Cyngor Gwynedd - Gwasanaeth Biniau Halen Gaeaf 2016-17**

Llythyr yn cadarnhau trefniadau a chadarnhau prisiau

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth ond cynnig dim sylwadau gan fod y Cyngor wedi penderfynu peidio â chynnig y gwasanaeth..

13 Ceisiadau Cynllunio - Ceisiadau Gorffennaf 2016

16-07-19 **C16/0583/17/LL**

Plasty Glynllifon, Ffordd Clynnog. LL54 5DY

Cais ar gyfer creu 'compound' dros dro a lleoli 4 carafán statig a 4 cynhwysydd a gosod ffens.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-07-20 **C16/0583/17/LL**

2 Tanybryn, Groeslon. LL54 7TP

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr ar gefn yr eiddo.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

16-07-21 **C16/0710/17/LL**

Yr Hen Bost, Lon Grugan Ddu. LL54 7ST

Dymchwel modurdy a storfa ar ochr yr eiddo a chodi estyniad yn ei le.

Penderfyniad y Cyngor - dim gwrthwynebiad

Materion Ariannol

16-07-22 14 Derbyniadau i 30 Mehefin 2016

Manylion	Cyfanswm
Ffioedd Claddu	£130.00

16-07-23 15 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor -

Manylion	Swm heb TAW	Cyfanswm y Taliad	Rhif Siec
Cyflog y Clerc - Gorffennaf 2016	£420.13	£420.13	Uniongyrchol
HMRC - Treth Incwm Gorffennaf 2016	£111.20	£111.20	Uniongyrchol
Lwfans Clerc – Gorffennaf 2016	£30.00	£30.00	Uniongyrchol
R G Owen – wal Bryn'rodyn	£2,000.00	£2,400.00	101688
R G Owen – cerbiau fynwent Bryn'rodyn	£200.00	£240.00	101689
Viking Direct – offer swyddfa	£62.63	£75.16	101690
Swyddfa'rPost - Stamps	£50.00	£50.00	101691
Gareth Bee - clirio lloches bws Caer Moel (cwynion)	£50.00	£50.00	101692
CommuniCorp - Tanysgrifiad Clerks&Council Direct	£60.00	£60.00	101693

16-07-24 16 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf

Cyfarfod o'r Cyngor - Nos Lun, 19 Medi 2016
Pwyllgorau a Gweithgorau - i'w gadarnhau

16-07-25 17 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn (19 Medi 2016)

Cyng. Robert Isaac Jones, Llandwrog

16-07-26 Lon Meurig , Llandwrog

Cwyn wedi ei dderbyn nad yw'r tiffeddiannwr yn gallu tocio'r ymylon oherwydd bod coed mawr wedi tyfu ar hyd y lon.
Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

Cyng. David Lewis, Y Fron

16-07-27 Cyflwr lonydd yn ardal y Fron

Cwynion fod cyflwr y lonydd yn y Fron yn gwaethygu. Nodwyd fod y lon ger y sgwâr a chyffordd Lon Buarth yn esiamplau .

Cyng. Hywel J Owen, Y Groeslon

16-07-28 Baw cŵn - diffyg gwagio biniau

Cwynion nad yw bibiau baw cŵn yn cael eu gwagio

Cyng. Helen Hughes, Carmel

16-07-29 **Goryrru Carmel**

Cwynion fod cerbydau yn goryrru trwy'r pentref yn arbennig lorïau mawr. Yn awgrymu fod Cyngor Gwynedd yn rhoi marciau coch ar y pedwar lôn yn y sgwâr.

Cyng. Hywel J Owen, Y Groeslon

16-07-30 **Gair o ddiolch i berson o'r Groeslon am gyflawni gwaith gwirfoddol ym mhentref Y Groeslon**

Cyn cloi'r cyfarfod rhoddwyd gair o ddiolch i Cyng. Alun Wyn Jones am gadeirio'r cyfarfod ac am gyflawni'r gwaith yn effeithiol. Roedd yr aelodau oll yn cytuno.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10 yr hwyr	
Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -	
	Cyng. Robert Jones, Cadeirydd y Cyngor
Dyddiad -	